

---

## Argraffnodau ymgeiswyr – Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

---

O dan Ddeddf  
Cynrychiolaeth y Bobl  
1983, a deddfwriaeth  
gysylltiedig,  
ceir rheolau am roi  
argraffnodau ar ddeunydd.  
etholiadol.

Deunydd etholiadol  
ymgeiswyr yw unrhyw  
ddeunydd y gellir ystyried  
yn rhesymol y bwriedir iddo  
hyrwyddo neu sicrhau ethol  
ymgeisydd mewn etholiad.

Pan gaiff deunydd  
etholiadol ei argraffu, rhaid  
iddo gynnwys rhai manylion  
penodol (y cyfeirir atynt fel  
'argraffnodau') er mwyn  
dangos pwy sy'n gyfrifol am  
y deunydd. Mae hyn yn  
helpu i sicrhau tryloywder  
ynghlŷn â phwy sy'n  
ymgyrchu.

Rydym yn cynnig cyngor a  
chanllawiau ar y rheolau  
hyn ond **nid** ydym yn eu

gorfodi. Mater i'r heddlu a  
Gwasanaeth Erlyn y Goron  
fydd penderfyniadau ar  
ymchwilio i droseddau  
argraffnodi a'u herlyn, a  
dylid cyfeirio unrhyw  
honiadau o ddiffyg  
cydymffurfiaeth i'r heddlu.

Mae'r rheolau ar  
argraffnodau yn gymwys at  
bob ymgeisydd. Mae'r  
daflen ffeithiau hon yn  
esbonio'r rheolau y mae'n  
rhaid i chi eu dilyn. Mae  
rheolau argraffnodau  
gwahanol yn gymwys at  
ymgeiswyr yn etholiadau  
Senedd yr Alban ac  
etholiadau cyngor yn yr  
Alban. Gweler [Argraffnodau  
ymgeiswyr - Etholiadau  
Senedd yr Alban ac  
etholiadau cyngor yn yr  
Alban](#) am ragor o fanylion.

Mae'r ffeithlen hon yn  
esbonio'r rheolau y mae

rhaid i chi eu dilyn os ydych yn ymgeisydd mewn unrhyw etholiad arall.

## Beth yw deunydd etholiadol ymgeiswyr?

Deunydd sy'n cael ei gyhoeddi yw deunydd etholiadol, megis taflenni a hysbysebion y gellir yn rhesymol ystyried eu bod wedi eu bwriadu at hyrwyddo neu sicrhau ethol ymgeisydd mewn etholiad.

Mae deunydd etholiadol hefyd yn cynnwys deunydd sy'n barnu ymgeiswyr eraill.

## Beth dylech chi ei gynnwys?

Ar ddeunydd etholiadol argraffedig megis taflenni a phosteri, mae'n rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad y canlynol:

- yr argraffydd,
- yr hyrwyddwr,
- unrhyw berson y cyhoeddir y deunydd ar ei ran (ond nid yr hyrwyddwr)

Yr hyrwyddwr yw pwy bynnag sydd wedi peri i'r deunydd gael ei gyhoeddi.

Rhaid i chi ddefnyddio cyfeiriad lle y gellir cysylltu â chi. Gall fod yn gyfeiriad cartref, cyfeiriad swyddfa, neu gyfeiriad busnes. Gallwch hefyd ddefnyddio blwch SP neu wasanaeth blwch post arall.

Os byddwch yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd print, nid oes angen i'ch hysbyseb gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd, ond rhaid i

enw a chyfeiriad argraffydd y papur newydd ymddangos ar dudalen gyntaf neu olaf y papur newydd. Rhaid i'r hysbyseb gynnwys y manylion eraill, fel sy'n arferol.

Os byddwch yn cael eich talu i gyhoeddi deunydd etholiadol, rhaid i'r deunydd gynnwys argraffnod sy'n cynnwys manylion pwy bynnag sy'n eich talu. Y mae hyn gan taw naill ai nhw yw'r hyrwyddwr, neu rydych chi'n cyhoeddi'r deunydd ar eu rhan.

Ym mhob achos, rhaid i chi sicrhau bod yr argraffnod yn rhestru'r holl sefydliadau sydd ynghlwm wrth gyhoeddi a hyrwyddo'r deunydd.

**Mae'n drosedd i argraffydd neu hyrwyddwr gyhoeddi deunydd etholiadol print heb argraffnod.**

## Enghreifftiau o argraffnod

Ar gyfer deunydd yr ymgeisydd ei hun, yr asiant yw'r hyrwyddwr fel arfer. Y person y cyhoeddir y deunydd ar ei ran fel arfer yw'r ymgeisydd.

Dylai argraffnod ar ddeunydd ymgyrch ymgeisydd edrych fel a ganlyn:

- Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd]
- Hyrwyddwyd gan [enw a chyfeiriad yr asiant], ar ran [enw a chyfeiriad yr ymgeisydd].

Er enghraifft:

*Argraffwyd gan Armadillo  
Printing Ltd, 22 Thornfields  
Avenue, Glasgow.*

*Hyrwyddwyd gan John Smith, 110 High Street, Airdrie ar ran Jane Smith o 112 High Street Airdrie.*

neu lle rydych yn defnyddio cyfeiriad swyddfa:

*Argraffwyd gan Armadillo Printing Ltd, 22 Thornfields Avenue, Glasgow.*

*Hyrwyddwyd gan John Smith, ar ran Jane Smith o 112 High Street Airdrie.*

Os yw'r deunydd yn ddigidol, nid oes argraffydd, ac felly rhaid i argraffnod digidol ar ddeunydd ymgyrchu ymgeisydd ymddangos fel hyn:

*Hyrwyddwyd gan John Smith, ar ran Jane Smith, y naill a'r llall o 112 High Street Airdrie.*

Pan fo'r ymgeisydd hefyd yn hyrwyddwr ar gyfer y deunydd, nid oes angen rhan 'ar ran' yr argraffnod. Gall hyn ddigwydd pan fo'r ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun.

Er enghraifft:

*Argraffwyd gan Armadillo Printing Ltd, 22 Thornfields Avenue, Glasgow*

*Hyrwyddwyd gan Jane Smith o 112 High Street Airdrie*

Os bydd yr ymgeisydd hefyd yn argraffu taflenni ar ei beiriant argraffu ei hun, dylai'r argraffnod ymddangos fel hyn:

*Argraffwyd a hyrwyddwyd gan Jane Smith o 112 High Street Airdrie.*

## Lle rydych yn gosod yr argraffnod?

Os yw'r deunydd yn ddogfen brint un ochr - megis poster ffenestr - neu lle mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar un ochr, mae'n rhaid i chi roi'r argraffnod ar ochr honno'r ddogfen.

Os yw'r ddogfen brint yn aml-ochrog, mae'n rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu'r dudalen olaf.

## Gwefannau a deunydd electronig arall

Fel arfer da, rydym yn argymhell eich bod yn gosod argraffnod ar ddeunydd electronig, megis gwefannau a negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr ac unrhyw sefydliad y cynhyrchwyd yr argraffnod ar eu rhan.

Lle y bo'n anymarferol cynnwys argraffnod llawn ar ddeunydd etholiadol dylech ystyried sut y gellid darparu ffordd amgen o gysylltu'r deunydd â chi.

### Cyfryngau cymdeithasol

Argymhellwn eich bod yn cynnwys yr argraffnod ar y neges ei hunan. Gallwch hefyd ei gynnwys rywle gerllw sydd wedi ei nodi yn glir.

Er enghraifft, ar Twitter, gellir cynnwys eich argraffnod mewn man amlwg ar eich proffil. Ar gyfer hysbysebion y talwyd amdanynt ar Facebook, gallwch gynnwys yr argraffnod yn nhestun yr ymwadiad sy'n mynd gyda'r hysbyseb.

### Cyllido torfol

Os bydd eich tudalen cyllido torfol yn cynnwys deunydd etholiadol yn ogystal â gofyn am roddion, rhaid

iddi gynnwys argraffnod. P'un ai felly y mae ai peidio, dylech sicrhau ei bod yn glir ar y dudalen i bwy y rhoddir yf arian.

Gallwch gael hyd i ragor o wybodaeth yn ein [ffeithlen cyllido torfol](#).

### **Delweddau a chartwnau**

Argymhellwn eich bod yn cynnwys yr argraffnod ar y llun ei hunan.

Os caiff ei gyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol, gallwch gynnwys argraffnod yn yr un modd ag y byddwch ar unrhyw neges arall ar y cyfryngau cymdeithasol.

Lle y bo'n anymarferol cynnwys argraffnod llawn ar ddeunydd etholiadol dylech ystyried sut y gellid darparu ffordd amgen o gysylltu'r deunydd â chi.

### **Fideos**

Argymhellwn eich bod yn cynnwys yr argraffnod yn y fideo ei hunan. Dylai'r argraffnod fod yn ddarllenadwy, a dylai ymddangos yn ddigon hir i bleidleiswyr allu ei ddarllen.

Os caiff y fideo ei chyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol, gallwch gynnwys argraffnod yn yr un modd ag y byddwch ar unrhyw neges arall ar y cyfryngau cymdeithasol

### **Poster i'w lawrlwytho**

Dylai unrhyw bosteri sydd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan ddwyn yr argraffnod llawn. Os caiff y posteri eu hargraffu a'u harddangos fel deunydd argraffedig, rhaid iddynt ddwyn yr argraffnod llawn gan gynnwys manylion yr argraffydd. Os ydych yn bwriadu gwneud hyn, dylech adael gwagle er mwyn iddynt gynnwys eu manylion fel argraffydd.

### **Fforymau trafod ar-lein**

Fel arfer da, rydym yn awgrymu, os ydych yn defnyddio'r fforymau hyn, eich bod yn amlygu'r ffaith eich bod yn ymgeisydd lle y bo'n bosibl.

## **Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth**

Yn ogystal â'r rheolau ar argraffnodau, ceir hefyd reolau ar godi arian a gwariant y mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol eu dilyn yn y cyfnod cyn etholiadau. Rydym wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau i bleidiau gwleidyddol sy'n esbonio'r rheolau hyn, y gallwch eu gweld ar ein [gwefan](#).

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cyngori, a gallwch gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod.

- Cymru  
[gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)  
0333 103 1929
- Lloegr  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)  
0333 103 1928
- Gogledd Iwerddon  
[infonorthernireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthernireland@electoralcommission.org.uk)  
0333 103 1928